# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 5 Hydref 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 5 Hydref 2023 |
| *Cyflwynir y Daflen hon fel penderfyniad brys, yn unol â rhan 14.15.2 o'r Cyfansoddiad, y dylid ei heithrio o'r drefn galw i mewn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cwblhau y cytundeb o fewn amserlen a ddynodwyd. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ei fod yn cytuno iddo fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynigir yn un rhesymol dan yr amgylchiadau.* | |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd y Cyngor

---

**PWNC** Ymrwymo arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG

---

**PENDERFYNIAD –**

1. Ymrwymo £63,002 o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynllun Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru gan Gyngor Busnes NWMD.
2. Ymrwymo cyfanswm o £600,000 yn ychwanegol o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynlluniau Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau a Chronfa Cefnogi Busnes a reolir gan Cyngor Gwynedd.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Siwan Lisa Evans<br>Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 05 Hydref 2023 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : | |

**PWNC: Ymrwymo arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG**

**Argymhellion ar gyfer y Penderfyniad:**

1. Ymrwymo £63,002 o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynllun Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru gan Gyngor Busnes NWMD.

2. Ymrwymo cyfanswm o £600,000 yn ychwanegol o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynlluniau Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau a Chronfa Cefnogi Busnes a reolir gan Cyngor Gwynedd.

**Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:**

Cytunodd Cabinet 24 Ionawr 2023 (Eitem 6) i drefn ar gyfer ymrwymo arian o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Sefydlwyd Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i ymrwymo'r arian gyda'u argymhellion i'w cadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd (neu'r Cabinet pe ddymunir hynny gan y Panel).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Ymrwymodd Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5) £21,352,966 o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i 38 o gynlluniau. Roedd y cynlluniau llwyddiannus yn cynnwys sefydlu Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau a Chronfa Cefnogi Busnes.

Nodwyd yn yr adroddiad fod dau gais eto i'w cyflwyno (wele 3.18). Bellach mae un o'r cynlluniau hynny, Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru gan Gyngor Busnes NWMD, wedi dod i law a'i asesu yn unol â'r drefn sefydlwyd. Mae Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd wedi penderfynu cefnogi'r cais.

Agorwyd y Gronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau a'r Gronfa Cefnogi Busnes gan Cyngor Gwynedd dros gyfnod yr haf. Mae'r ymateb i'r ddwy Gronfa wedi bod yn anferthol gyda'r galw am gymorth ymhell y tu hwnt i'r arian sydd ar gael.

I leihau'r bwlch rhwng y galw a'r arian sydd ar gael, mae Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd wedi argymell ymrwymo £600,000 yn ychwanegol o'r arian sydd yn weddill yn nyraniad Gwynedd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r Cronfeydd.

Mae'r adroddiad yma yn adlewyrchu argymhellion y Panel.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid:

*Rwyf yn cefnogi'r argymhellion i ymrwymo arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynlluniau a nodir, ac nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach o safbwynt ariannol.*

Swyddog Monitro:

*Mae'r Daflen Penderfyniad yn darparu crynodeb gywir o'r drefn a fabwysiadwyd ar gyfer ymdrin â Chronfa Ffyniant Gyffredin drwy'r panel. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniad a geisir. Rwy'n fodlon hefyd fod cyfiawnhad i weithredu ar fyrder oherwydd yr angen i ryddhau cynigion o'r Cronfeydd mewn da bryd i ganiatáu i'r prosiectau symud ymlaen.*

*Gallaf gadarnhau fod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi cydsynio dan Reol 14.15.2 o'r Cyfansoddiad y gellir ymdrin a'r mater fel penderfyniad brys y gellir ei weithredu yn syth.*

Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol